

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro – Dysgwyr ac Ymwelwyr

Ymrwymiad

Fel darparwr addysg a hyfforddiant, bydd Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro yn rhoi polisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n bodloni anghenion ein cymunedau drwy hyrwyddo cynhwysiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'r Grŵp yn ymdrechu i ddileu gwahaniaethu a goresgyn yr anfanteision sy'n bodoli mewn cymdeithas sydd wedi arwain at drin rhai grwpiau'n llai ffafriol nag eraill. Mae gan y Grŵp gyfrifoldeb i ddarparu cyfleoedd i unigolion gyflawni eu potensial mewn amgylchedd diogel heb gael eu gwahaniaethu. Mae'n rhaid i'r Grŵp hefyd sicrhau ei fod yn cynrychioli'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu a'i fod yn bodloni anghenion y gymuned hon.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â rhyw, oed, anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas/partneriaeth sifil.

Mae'r holl reolwyr, staff, dysgwyr, contractwyr, ymwelwyr ac eraill sy'n ymgysylltu neu'n ymwneud â'r Grŵp yn gyfrifol am ymddwyn mewn modd sy'n parchu ac yn cefnogi ethos ein Grŵp cynhwysol a'n hymrwymiad i gyfleoedd teg ar gyfer dysgu a chyflogaeth. Mae'r ddyletswydd hon yn cyfeirio at unigolion pan fyddant y tu mewn a thu allan i'n heiddo ac mae'n cynnwys defnydd o'r rhyngrwyd a dyfeisiau cyfathrebu electronig megis e-bost, ffonau symudol, consolau gemau, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol ac ati, waeth pwy sy'n berchen ar y ddyfais gyfathrebu.

Cwmpas a Phwrrpas y Polisi

Mae'r Grŵp yn fodlon derbyn ei gyfrifoldebau allweddol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, gwahaniaethu ac ymddygiad anghyfreithlon arall.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal trwy ddileu neu leihau anfanteision, cymryd camau i fodloni anghenion, ac annog cyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.
- Meithrin perthnasau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth.

Roedd y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn cydnabod bod anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn parhau a chyflwynodd hawliau pellach a rhwymedigaethau newydd i gyrff cyhoeddus.

Ategir y polisi hwn gan weledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yrwyr allweddol Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi'n ymgorffori'r egwyddorion a ganlyn:

- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth ddysgu, mewn amgylchedd sy'n dileu neu'n lleihau anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **symud ymlaen** yn llwyddiannus trwy eu bywydau.
- Ymrwymiad i'r **model cymdeithasol o anabledd** lle rydym yn edrych ar ddileu'r rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd eu hanabledd neu anhawster dysgu, i hyrwyddo cynhwysiant.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu waeth beth fo'r dull neu'r lleoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid a sefydliadau masnachfaint.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ymwelwyr â'r Grŵp.

Datganiadau Polisi

Nod y polisi hwn yw:

- **Sicrhau bod gweithdrefnau cysylltiedig** yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu ar draws y Grŵp. Bydd hyn yn cynnwys mecanwaith i sicrhau bod egwyddorion y polisi hwn yn rhan annatod o holl bolisiâu'r Grŵp.
- **Nodi staff cyfrifol** - bydd hyn yn cynnwys nodi uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb strategol ac unigolion sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu hadrodd i'r Llywodraethwyr trwy'r Bwrdd Safonau Ansawdd. Bydd strwythur pwyllgor priodol hefyd i sicrhau cyfranogiad effeithiol rhanddeiliaid allweddol.
- **Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol** fel modd o wella profiad staff a dysgwyr a bwrw ymlaen â'n Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus drwy gyflawni unrhyw nodau neu dargedau. Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.
- **Ymgysylltu** â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r holl nodweddion gwarchodedig wrth osod ac adolygu ein hamcanion cydraddoldeb.
- **Dyrannu adnoddau priodol** i gefnogi gweithrediad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn.
- **Monitro a chyhoeddi data perthnasol** sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb o fewn y Grŵp fel rhan o'n Dyletswydd Sector Cyhoeddus, yn flynyddol. Caiff y data hwn ei ddadansoddi'n llawn a datblygir cynlluniau gweithredu i oresgyn unrhyw batrymau o dangynrychiolaeth, tanberfformiad neu anfodlonrwydd.

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024

- **Ystyried mesurau gweithredu cadarnhaol** a ganiateir gan y gyfraith i unioni anfanteision mewn cyflogaeth neu ddarpariaeth addysg a ddatgelir gan fonitro.
- **Cynnal asesiadau effaith** i archwilio polisiâu, gweithdrefnau ac arferion i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn y polisiâu hyn ac nad oes unrhyw effaith negyddol yn erbyn y nodweddion gwarchodedig. Defnyddir targedau a osodir yn ystod cyfarfodydd EIA i leihau effaith wahaniaethol neu rannu effaith gadarnhaol.
- **Sicrhau bod rhaglen** yn cael ei rhoi ar waith i hyrwyddo amrywiaeth a meithrin cysylltiadau da ar draws y Grŵp.
- **Datblygu deunyddiau priodol i godi ymwybyddiaeth** am gyfle cyfartal a chynwysoldeb ar draws y Grŵp i sicrhau bod yr holl staff, myfyrwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r materion dan sylw a'u cyfrifoldebau.
- Cymryd camau i sicrhau bod gweithdrefnau ar waith fel **bod honiadau o wahaniaethu a bwlio ac aflonyddu** yn cael eu trin yn gyflym, yn cael eu hymchwilio'n llawn ac yn brydlon, a bod unigolion yn cael eu cefnogi drwy'r broses.

Yn ogystal, fel darparwr **addysg a hyfforddiant**, bydd y Grŵp yn gwneud pob ymdrech i:

- Cynhyrchu deunyddiau sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ddealladwy.
- Gweithredu trefn dderbyn a fydd yn cynghori ac yn arwain darpar fyfyrwyr, gan ystyried addasiadau rhesymol, beth bynnag fo'u hanghenion, hyrwyddo cynhwysiant a gwella cysylltiadau â'r holl sefydliadau y gallai myfyrwyr symud ymlaen i ni ohonynt.
- Datblygu deunyddiau a chyfleoedd i sicrhau bod ein dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a datblygu ymddygiad yn unol ag egwyddorion cynwysoldeb. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o wahaniaethau pobl ac yn mynd ati i chwalu unrhyw rwystrau sy'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaethau hyn.
- Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i symud ymlaen.
- Datblygu arferion addysgu a dysgu cynhwysol ar gyfer pob dysgwr.
- Sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch.
- Gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion ffurfiol yn ymwneud â chyfle cyfartal.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr ar bob lefel a math o ddarpariaeth yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwyllo darpariaeth, safonau, disgwyladau neu iawn megis corff dyfarnu, yr ASA neu'r Swyddfa Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer AU (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn).

Datganiad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn croesawu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar yr amod y gallwn fodloni eu hanghenion a chynnig y cymorth sydd ei angen arnynt. Diffinnir anghenion dysgu ychwanegol yn unol â Chod ADY Cymru (2021) Llywodraeth Cymru:

1. Mae gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo ef neu hi anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
2. Mae gan blentyn o oedran ysgol orfodol neu unigolyn dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd os yw ef neu hi
 - a. yn cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o rai eraill o'r un oedran, neu
 - b. ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
3. Mae gan blentyn o dan oedran ysgol orfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw, neu y byddai pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud, yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o oedran ysgol orfodol.
4. Nid oes gan unigolyn anhawster dysgu neu anabledd dim ond oherwydd bod yr iaith (neu ffurf yr iaith) y caiff ei addysgu neu y bydd yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd yn y cartref.

Bydd dysgwyr ag ADY yn cael eu cefnogi trwy ddarpariaeth dysgu ychwanegol (ALP) ac mae holl staff Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddarparu darpariaeth dysgu ychwanegol priodol a gweithredu cynlluniau cymorth dysgwyr, mewn cydweithrediad â'r fîm ADY. Mae dysgwyr yn cael y cyfle i ddatgelu ADY wrth wneud cais a chofrestru a bydd swyddogion dynodedig yn y fîm ADY yn eu cefnogi i bontio'n esmwyth o'r ysgol i'r coleg. Mae'r fîm ADY yn gweithio gyda'r dysgwr, eu teuluoedd, cydweithwyr yng Ngrŵp Coleg Caerdydd a'r Fro ac asiantaethau allanol i nodi anghenion cymorth a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

Nodau Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro ar gyfer Cymorth ADY:

- Nodi a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr trwy gydol eu hamser yng Ngrŵp Coleg Caerdydd a'r Fro;
- Cydweithio â gweithwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr ag ADY yng Ngrŵp Coleg Caerdydd a'r Fro yn cael eu cefnogi'n effeithiol;
- Hyrwyddo arfer cynhwysol sy'n sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'i ADY, yn cael mynediad i'r cwricwlwm a phrofiad Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro;
- Gweithredu dull coleg cyfan o ymdrin ag ADY, gan gadw at God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021); a
- Parhau i ddatblygu hyfforddiant gweithwyr i gefnogi'r uchod.

Cyfrifoldebau

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024

Bydd y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) a rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae Uwch Reolwyr yn gyfrifol am:

- Adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm, gan gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Monitro ac ymateb i ddata ansawdd a pherfformiad sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb ac amrywiaeth. Defnyddio'r dadansoddiad hwn o ddata i lywio cynllunio yn y dyfodol i wella cynrychiolaeth, cyfranogiad a llwyddiant grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a grwpiau sy'n tangyflawni, a herio stereoteipio.
- Sicrhau bod cyllideb ddigonol yn cael ei darparu ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol.
- Sicrhau cyllideb ddigonol yn cael ei darparu ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi'r polisi hwn.
- Trin unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ymddygiad radical a gyflawnir gan unigolyn fel mater ar gyfer camau disgyblu posibl.

Mae Uwch Staff Ansawdd yn gyfrifol am:

- Cynnal gwerth y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol a chefnogaeth i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dilyn y polisi.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am:

- Gweithredu yn unol â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Delio â phob honiad o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn sensitif, ac ymchwilio'n deg ac yn drylwyr.
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o bob agwedd ar ein rhaglenni.
- Sicrhau bod dysgu'n digwydd mewn amgylchedd cefnogol sy'n rhydd o wahaniaethu neu aflonyddu, gan hyrwyddo Gwerthoedd Prydeinig.
- Arwain trwy esiimpl.
- Helpu dysgwyr i wella eu harferion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol perthnasol a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.

Mae pob dysgwr yn gyfrifol am:

- Trin dysgwyr eraill, staff a rhanddeiliaid ag urddas a pharch.
- Peidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n gwahaniaethu neu'n aflonyddu ar eraill oherwydd eu hil, rhyw, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cefndir personol neu amgylchiadau.

- Rhoi gwybod am unrhyw fwlio neu aflonyddu.
- Mynychu digwyddiadau gwybodaeth yn ystod y cyfnod sefydlu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'i oblygiadau iddynt hwy.
- Gweithredu yn unol â'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Cydraddoldeb 2010
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
Deddf ADY
Cod ADY

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Cyfeiriadau

Mae dolen i'r holl bolisiâu a gweithdrefnau.

Cyfathrebu a Storio

Cyhoeddir y polisi hwn ar wefan y cwmni.
Cedwir y polisi hwn ar fewnwyd y cwmni.
Rhennir y polisi hwn gyda dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Newid ac Adolygu

Adolygir y polisi hwn bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo: 7 Gorffennaf 2020

Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024



Cymeradwywyd gan: Prif Fwrdd

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2024

Arweinydd Gweithredol: Is-bennaeth Ansawdd a Thaith y Dysgwr

Hygyrch i Fyfyrwyr: : Ydi

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2024